Rhaglen Gyflawn

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**3.00 y.h., DYDD GWENER, 1AF CHWEFROR, 2019**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfa Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 25 Ionawr 2019)

## BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Gareth Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Mark Pritchard | Cyngor Wrecsam |
| Aaron Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| Dyfrig L. Siencyn | Cyngor Gwynedd |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| Bryn Jones | Prifysgol Bangor |
| David Jones | Coleg Cambria |
| Ashley Rogers | Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy |
| Jim Jones | Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dr Gwynne Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Colin Everett | Cyngor Sir y Fflint |
| Judith Greenhalgh | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Bancroft | Cyngor Wrecsam |
| Dilwyn Williams | Cyngor Gwynedd |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151 |
| Iwan Trefor Jones | Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |

# R H A G L E N

1. **ETHOL CADEIRYDD AM 2019/20**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD AM 2019/20**

3. **CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

5. **MATERION BRYS**

6. **RHAGLEN WAITH GYCHWYNNOL Y BWRDD UCHELGAIS A THREFNIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL** 4 - 17

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**Chwefror 1af 2019**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Rhaglen Waith Gychwynnol y Bwrdd Uchelgais a threfniadau cyfarfodydd y dyfodol |
| **Awdur:** | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol |

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

Pwrpas yr adroddiad yw cynnig rhaglen waith lefel uchel ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd dros y 6-9 mis nesaf. Hefyd, bydd yr adroddiad yn argymell amserlen o gyfarfodydd i'r Bwrdd.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

Cytuno ar y rhaglen waith lefel uchel ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd dros y 6-9 mis nesaf.

Cytuno ar amserlen o gyfarfodydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd tan ddiwedd y flwyddyn galendr.

**3. Rhesymau dros y Penderfyniad**

Mae hi'n hanfodol fod gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd, fel y'i ffurfir o'r newydd, raglen waith glir i arwain gweithgareddau allweddol dros y 6-9 mis nesaf. Bydd hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gomisiynu'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol gyda chynllun gwaith pwrpasol er mwyn cydlynu'r gwaith o gyflawni'r Weledigaeth Twf. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfeiriad cytûn ar gyfer gweithgareddau'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol, gyda cherrig milltir ac amserlenni clir, a fydd yn help wrth reoli disgwyliadau.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

Cymeradwywyd Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf i ffurfioli trefniadau cyfansoddiadol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan yr holl bartneriaid ym mis Mehefin a Gorffennaf 2018.

Roedd y cytundeb hwn yn diffinio pwrpas y Bwrdd fel a ganlyn

- Cydlynu cynllunio a chyflawni'r Weledigaeth Twf, gan ganolbwyntio'n wreiddiol ar y Cynllun Twf;

- Rhoi cyfeiriad i strategaethau allweddol i gefnogi'r uchod, yn benodol trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi a chynllunio defnydd tir;

- Uno partneriaid o amgylch diben cyffredin i gefnogi cynllunio a chyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf;

- Rhoi cyfeiriad i unrhyw Is-fyrddau y mae'r Cyd-bwyllgor yn dewis eu penodi yn cynnwys comisiynu tasgau neu brosiectau penodol;

- Cynnig prosiectau y gellid ymgymryd â hwy fel rhan o'r Cynllun Twf;

- Trafod prosiectau o'r fath i asesu p'un a oes cyfiawnhad am ddiwydrwydd dyladwy pellach a chyrraedd cytundeb ar y costau y dylid mynd iddynt wrth ymgymryd â gwaith arfarnu pellach;

- Cytuno ar Gynllun Gweithredu profforma a fydd yn gosod y broses ar gyfer cytuno a blaenoriaethu prosiectau a gaiff eu cymryd ymlaen yn unol â'r Cynllun Twf;

- Paratoi Cynllun Busnes drafft yn unol â Chymal 7 (Cynllun Busnes);

- Goruchwylio a chydlynu cyflawni rhwymedigaethau paratoadol y Cynghorau yng nghyswllt y Cynllun Twf;

- Gwneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol i fwrw ymlaen â nodau ac amcanion y Weledigaeth Twf;

- Ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u nodi yn Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor) yn y Cytundeb Llywodraethu.

Mae Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Bwrdd - fel y'i nodir yn y Cytundeb Llywodraethu - wedi'i nodi yn Atodiad 1.

Cymeradwyodd yr holl bartneriaid y Ddogfen Gynnig, sy'n gosod pecyn o fesurau ac ymyraethau beiddgar i gyflawni twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol yn y Gogledd, ym mis Medi a Hydref 2018. Mae'r ddogfen hon yn adnabod 16 prosiect sydd i'w hariannu drwy'r Cynllun Twf, gyda manylion am gostau, deilliannau ac amserlen cyflawni wedi'u cynnwys. Y cyfanswm oedd yn cael ei dargedu o'r Cynllun Twf oedd £334m o arian cyfalaf a £8m o arian refeniw.

Cadarnhaodd Llywodraeth y DU ddyraniad o £120 miliwn i'r Cynllun Twf yng Nghyllideb y Canghellor ar 29 Hydref, 2018. Derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y byddai hithau’n cyfateb y swm hwn ar 21 Rhagfyr, 2018. Golyga hyn fod cyllideb o £240 miliwn bellach yn ei lle i gyflawni prosiectau o fewn y Cynllun Twf.

Cam nesaf proses y Cynllun Twf, yn dilyn y cyhoeddiadau gan y ddwy Lywodraeth, yw cytuno ar Benawdau'r Telerau. Bydd angen gwneud hyn erbyn mis Mai neu Fehefin 2019.

O ystyried yr amserlenni tynn, a'r angen i fwrw ymlaen â blaenoriaethau allweddol eraill ar wahân i Benawdau'r Telerau, cynigir rhaglen waith lefel uchel, sy'n cynnwys 10 pecyn gwaith sydd wedi'u rhestru isod;

- Penawdau'r Telerau
- Llywodraethu
- Cyllid
- Swyddfa Rhaglen
- Strategaethau a Phrosiectau a Gomisiynwyd
- Cyfreithiol a Chaffael
- Monitro ac Arfarnu
- Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid
- Swyddogaeth Ranbarthol Strategol
- Rheoli Cyflawni

Mae tasgau allweddol wedi'u hadnabod ar gyfer pob pecyn, ynghyd â'r amserlen ar gyfer cyflawni a'r corff cyfrifol. Ceir copi o'r rhaglen waith lefel uchel yn Atodiad 2.

Mae'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol wedi trafod blaenoriaethau'r rhaglen waith, ac mae copïau o'r rhaglen ddrafft wedi'u hanfon at bob cynrychiolydd am sylwadau ac awgrymiadau.

Caiff rhaglen waith fanylach ei pharatoi ar gyfer y Grŵp Cefnogaeth Weithredol, i gynnwys ffactorau llwyddiant, is-dasgau, enwau swyddogion, dyddiadau terfyn penodol a rhyng-ddibyniaethau - yn cynnwys risg.

Mae amserlen arfaethedig o gyfarfodydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi'i nodi yn Atodiad 3. Cynhelir cyfarfodydd y Grŵp Cefnogaeth Weithredol bythefnos cyn cyfarfodydd y Bwrdd.

## 5. Goblygiadau Ariannol

Yn unol â'r Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf, ac yng nghyswllt y Gyllideb Flynyddol, bydd pob Cyngor yn talu swm o £50,000 yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20, a phob ymgynghorydd, ac eithrio Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, yn talu swm o £25,000 yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20. Bydd y Corff Atebol (Cyngor Gwynedd) yn dal ac yn cyfrifo am y Gyllideb Flynyddol ar ran y Cyd-bwyllgor a'r partïon eraill.

Fel noder yn y rhaglen waith gychwynnol, bydd cyllideb 2019/20 yn cael ei gytuno yn ystod cyfarfod mis Mawrth y Bwrdd Uchelgais.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

Mae'r cynnig yn unol â'r Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf y cytunwyd arno.

**7. Goblygiadau Staffio**

**8. Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae'r cynnig yn unol â pholisïau a strategaethau'r Corff Atebol.

**9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol.

**10. Atodiad**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Aelodaeth y Bwrdd a Cylch Gorchwyl y Bwrdd, Cytundeb Llywodraethu 1 |
| Atodiad B | Rhaglen Waith Gychwynnol |
| Atodiad C | Amserlen Cyfarfodydd |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Mae'r adroddiad yma yn gosod sylfaeni ar gyfer gwaith y Bwrdd Uchelgais Economaidd wrth iddo ddod yn gyd-bwyllgor statudol. Rwyf wedi cydweithio ar baratoi yr adroddiad felly nid oes gennyf sylwadau penodol i'w hychwangeu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Pennaeth Cyllid - Corff Atebol:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma ac rwy'n cadarnhau'r agweddau ariannol o'r cynnwys.

9. **Y CYD-BWYLLGOR**

9.1 Bydd y Cynghorau'n ffurfio'r Cyd-bwyllgor yn unol â'r cytundeb hwn ("**Cyd-bwyllgor**") er dibenion:-

9.1.1 cydlynu cynllunio a chyflawni'r Weledigaeth Twf, gan ganolbwyntio'n wreiddiol ar y Cynllun Twf

9.1.2 rhoi cyfeiriad i strategaethau allweddol i gefnogi paragraff 9.1.1 uchod, yn benodol trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi a chynllunio defnydd tir;

9.1.3 uno’r Partion, cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, elusennau a busnesau o amgylch diben cyffredin i gefnogi 9.1.1 uchod;

9.1.4 rhoi cyfeiriad i unrhyw Is-fyrddau y mae'r Cyd-bwyllgor yn dewis eu penodi yn cynnwys comisiynu tasgau neu brosiectau penodol;

9.1.5 cynnig prosiectau y gellid ymgymryd â hwy fel rhan o'r Cynllun Twf;

9.1.6 trafod prosiectau o'r fath i asesu p'un a oes cyfiawnhad am ddiwydrwydd dyladwy pellach a chyrraedd cytundeb ar y costau y dylid mynd iddynt wrth ymgymryd â gwaith arfarnu pellach;

9.1.7 cytuno ar Gynllun Gweithredu profforma a fydd yn gosod y broses ar gyfer cytuno a blaenoriaethu prosiectau a gaiff eu cymryd ymlaen yn unol â'r Cynllun Twf;

9.1.8 paratoi Cynllun Busnes drafft yn unol â Chymal 7 (*Cynllun Busnes*);

9.1.9 goruchwylio a chydlynu cyflawni rhwymedigaethau paratoadol y Cynghorau yng nghyswllt y Cynllun Twf,

9.1.10 Gwneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol i fwrw ymlaen â nodau ac amcanion y Strategaeth Twf Ranbarthol

9.1.11 ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u nodi yn Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor).

9.2 Gall y Cyd-bwyllgor ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau eraill o'r fath fel y penna'r Cynghorau o bryd i'w gilydd a'u cymeradwyo fel Materion a Gedwir i’r Partïon.

9.3 Ni fydd gan y Cyd-bwyllgor y pŵer i gymeradwyo unrhyw Fater a Gedwir i’r Partïon.

9.4 Bydd gan yr Ymgynghorwyr yr hawl i fynychu a siarad yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor.

9.5 Bydd pob Parti yn penodi un (1) cynrychiolydd i'r Cyd-bwyllgor. Mae manylion pob un o'r cynrychiolwyr wedi'u nodi yn Atodlen 7 (Manylion y Cynrychiolwyr).

9.6 Bydd Cadeirydd y Cyd-bwyllgor yn gynrychiolydd Cyngor a benodir i'r Cyd-bwyllgor a chaiff ei benodi'n flynyddol gan y Cyd-bwyllgor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Ni fydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw

9.7 Bydd gan bob Parti hawl, o bryd i'w gilydd, i benodi dirprwy wedi'i enwi ar gyfer ei gynrychiolydd. Gall unrhyw ddirprwyon fynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor ond ni fydd ganddynt hawl i siarad na phleidleisio mewn cyfarfodydd oni bai bod y prif gynrychiolydd cyfatebol yn absennol.

9.8 Gall pob Parti, ar ei ddisgresiwn, newid ei gynrychiolydd (a'i ddirprwy priodol) a benodir i'r Cyd-bwyllgor, ar yr amod:-

9.8.1 bod ganddynt, bob amser, gynrychiolydd wedi’i ethol i’r Cyd-bwyllgor yn unol â’r

rolau sydd wedi'u hadnabod yn Atodlen 2 (*Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor*);

9.8.2 nad oes gan yr olynydd statws nac awdurdod is na'r hyn sydd wedi'i nodi yn Atodlen 2 (*Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor*) oni bai y cytuna'r Partïon fel arall; a

9.8.3 chaiff manylion unrhyw gynrychiolydd o'r fath eu rhannu gyda'r Partïon eraill yn ysgrifenedig, er mwyn diweddaru'r manylion perthnasol sydd wedi'u nodi yn Atodlen 7 (Manylion y Cynrychiolwyr).

9.9 Oni bai bod y Cyd-bwyllgor yn penderfynu fel arall (e.e. os pennir nad oes angen cyfarfod), bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod naill ai bob mis neu fel sydd angen yn unol ag amserlen y Cynllun Twf. Caiff cyfarfodydd eu galw ar amseroedd priodol ac wedi rhoi'r hysbysiad statudol angenrheidiol (i'w gyhoeddi drwy'r Corff Atebol) i drafod Materion y Cyd-bwyllgor y cyfeirir atynt yn Atodlen 1 (*Polisi Dirprwyo*).

9.10 Disgwylir i bob Cyngor a phob Ymgynghorydd fynychu holl gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor lle bo hynny'n bosib.

9.11 Gall unrhyw gynrychiolydd ofyn i fater gael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor, drwy wneud cais ysgrifenedig i'r Tîm Gweithredol.

9.12 Bydd y Tîm Gweithredol yn sicrhau y caiff yr holl raglenni a'r wybodaeth berthnasol yng nghyswllt cyfarfod y Cyd-bwyllgor eu dosbarthu'n amserol a beth bynnag yn unol â gofynion deddfwriaethol.

9.13 Gall unrhyw gynrychiolydd ofyn i'r Cadeirydd ar ddechrau cyfarfod y Cyd-bwyllgor i eitem frys gael ei hychwanegu i'r rhaglen, os yw ef neu hi yn ystyried bod angen ystyried mater ar frys, ond mater i'r Cadeirydd benderfynu a yw am ei gynnwys fydd hyn.

9.14 Y cworwm angenrheidiol i gyfarfod y Cyd-bwyllgor fydd cynrychiolydd neu ddirprwy o o leiaf 4 Cyngor.

9.15 Yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor bydd gan bob cynrychiolydd neu ddirprwy priodol (yn absenoldeb y cynrychiolydd perthnasol) o bob Cyngor un bleidlais.

9.16 Yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor, bydd gan bob cynrychiolydd neu ddirprwy priodol (yn absenoldeb y cynrychiolydd perthnasol) o bob Ymgynghorydd yr hawl i gynghori'r Cyd-bwyllgor ar benderfyniadau a chaiff eu barn ei chofnodi gan y Cyd-bwyllgor. Er nad oes bwriad i'r Ymgynghorwyr gael hawliau pleidleisio ffurfiol, bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried unrhyw farn neu sylw a wneir gan yr Ymgynghorwyr ac os nad yw'r Ymgynghorwyr yn cytuno gyda phenderfyniad arfaethedig, bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried (gan ymddwyn yn ddidwyll) datgan bod mater yn Fater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor.

9.17 Gwneir penderfyniadau yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor drwy bleidlais fwyafrif syml o'r cynrychiolwyr (neu ddirprwyon fel sy'n briodol) o'r Cynghorau sy'n bresennol, ar yr amod os:

9.17.1 yw'r pleidleisiau'n gyfartal (h.y. sefyllfa ddiddatrys); neu

9.17.2 bod dau Barti neu fwy yn gwneud cais o'r fath yn y cyfarfod,

caiff y penderfyniad hwnnw ei ddatgan fel Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor ac ymdrinnir ag ef yn unol â Chymal 9.18.

9.18 Os, mewn cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor, nad yw mater yn derbyn penderfyniad, caiff y mater hwnnw ("**Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor**") ei ohirio er mwyn ei ystyried yng nghyfarfod arferol nesaf y Cyd-bwyllgor, neu adeg gynharach o'r fath fel y cytunir. Os, yn yr ail gyfarfod, nad yw'r Cyd-bwyllgor yn gwneud penderfyniad ar y Mater Heb ei Ddatrys, ni fydd cytundeb ar y Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor ac ni chaiff ei weithredu gan y Cyd-bwyllgor.

9.19 Bydd pob Parti yn darparu'r holl wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol ar gais gan y Cyd-bwyllgor i'r Tîm Gweithredol, a byddant yn cydymffurfio ag unrhyw benderfyniadau gan y Cyd-bwyllgor i ofyn am wybodaeth o'r fath.

9.20 Bydd pob Parti yn ymgynghori â'r Partïon eraill i sicrhau bod y materion dydd i ddydd sy'n ymwneud â chyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf yn mynd yn eu blaen yn ddiwyd.

9.21 Os yw Parti yn dymuno darparu unrhyw wybodaeth a/neu gyflwyno hysbysiad neu orchymyn ar y Cyd-bwyllgor, dylid cyflwyno'r rhain i'r Tîm Gweithredol yn unol â Chymal 23.3 (*Hysbysiadau*). Bydd y Tîm Gweithredol yn cadw cofnod o'r holl wybodaeth, hysbysiadau a gorchmynion a dderbynnir a bydd yn diweddaru pob cynrychiolydd yn brydlon.

9.22 Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno y bydd y Cyd-bwyllgor yn mabwysiadu (fel sy'n briodol) reolau sefydlog, rheolau gweithdrefnau ariannol ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill contract cyffredinol y Corff Atebol ar gyfer ac ar ran y Partïon wrth gyflawni ei rwymedigaeth dan y Cytundeb hwn a bod prif swyddog cyllid y Corff Atebol ('**Swyddog A151**') a'r Swyddog Monitro (neu eu dirprwyon a enwebir) yn gweithredu, yn y drefn honno, fel Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor.

9.23 Mae'r Ymgynghorwyr yn cydnabod ac yn cytuno y bydd eu cynrychiolydd neu eu dirprwy yn cydymffurfio â thelerau Cod Ymddygiad y GA.

9.24 **Gall y Cyd-bwyllgor Ddirprwyo**

9.24.1 Gall y Cyd-bwyllgor ddirprwyo unrhyw rai o'r pwerau sydd wedi'u rhoi iddo dan y Cytundeb hwn:

(a) i is-bwyllgor neu swyddog o un o'r cynghorau;

(b) i'r fath raddau;

(c) yng nghyswllt materion o'r fath; ac

(d) ar amodau a thelerau o'r fath,

yr ystyria'n addas o bryd i'w gilydd (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau y gellid eu gosod ar ddirprwyo o'r fath gan unrhyw un o'r Cynghorau).

9.24.2 Gall y Cyd-bwyllgor ganiatáu y bydd dirprwyo fel hyn yn awdurdodi dirprwyo pwerau'r Cyd-bwyllgor ymhellach yn awtomatig, gan unrhyw berson y maent wedi'u dirprwyo iddo, ar yr amod bod y Cyd-bwyllgor yn nodi hyn yn benodol o fewn awdurdod dirprwyo o'r fath.

9.24.3 Gall y Cyd-bwyllgor ddiddymu unrhyw ddirprwyo yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu addasu'r amodau a thelerau unrhyw bryd.

Atodlen 2

**CYLCH GORCHWYL**

**Rhan 1**

**CYLCH GORCHWYL Y CYD-BWYLLGOR**

**Nodau/Pwrpas**

1. Y Cyd-bwyllgor fydd y corff allweddol i oruchwylio'r Cynllun Twf a chynrychioli buddiannau'r Partïon a'i randdeiliaid. Yn ogystal, bydd y Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am fonitro cynnydd y prosiect a rheoli dimensiynau gwleidyddol y Cynllun Twf.

2. Hefyd, bydd y Cyd-bwyllgor yn goruchwylio'r Strategaeth Twf Ranbarthol a bydd yn gwneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol i hwyluso a gweithredu ei chyflawni.

3. Bydd y Cyd-bwyllgor yn ymgymryd â'r swyddogaethau a ganlyn:
   - Pennu ffurf a nifer y cronfeydd i gyflawni'r Cynllun Twf.
   - Cytuno ar brosiectau allweddol i gyflawni'r Cynllun Twf
   - Darparu cyfeiriad strategol i'r Tîm Gweithredol (i gynnwys cymeradwyo cylch gwaith y Tîm Gweithredol a chymeradwyo unrhyw faterion adnoddau)
   - Gweithredu fel cynrychiolydd i bob un o'r Partïon i sicrhau cysondeb gydag amcanion a gweledigaethau unigol
   - Monitro trefniadau perfformiad, rheoli a gwaith (i gynnwys y gwiriadau archwilio a sicrwydd angenrheidiol)
   - Sicrhau bod adnoddau digonol wedi'u hymrwymo i'r Cynllun Twf
   - Cyflafareddu ar unrhyw anghydfod o fewn y rhaglen a negodi datrysiad i unrhyw broblemau rhwng y rhaglen a chyrff allanol
   - Cyfathrebu a darparu cynnydd ar faterion strategol o fewn y Cynllun Twf
   - Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng y Partïon
   - Cyhoeddi datganiad llywodraethu blynyddol a Chyfrifon Blynyddol â phartneriaid Cynlluniau Twf neu Gynlluniau Dinasoedd ledled y Deyrnas Unedig i rannu arfer gorau a sicrhau dull strategol wedi'i gydlynu
   - Darparu adroddiadau cynnydd blynyddol i'r Partïon
   - Diweddaru'r Polisi Dirprwyo o bryd i'w gilydd

**Telerau**

4 Ar ddechrau'r Cynllun Twf:
   - Cwblhau'r GA2 ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig, yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw Gynlluniau Busnes Cymal 7 a
   - Chytuno ar fanylion y broses gwneud penderfyniadau ac asesiadau (fel y cyfeiriwyd atynt yn y Fframwaith Sicrwydd ac os nad ydynt wedi'u cwblhau eto) cyn i'r Cyd-bwyllgor ystyried prosiectau unigol

5. Yn ystod y camau cynllunio a datblygu:

   - Adolygu statws y prosiect yn erbyn y cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo
   - Monitro rheolaeth cyllideb, risgiau ac ansawdd y prosiect
   - Hyrwyddo a chefnogi'r prosiect ymhlith rhanddeiliaid perthnasol a lle bo hynny'n briodol, derbyn eu caniatâd.
   - Ceisio datrys anghydfodau lle nad yw'n bosib datrys y rhain yn foddhaol drwy unrhyw ddull arall
   - Sicrhau bod y cynigion yn fforddiadwy ac yn rhoi'r gwerth gorau am arian i'r sector cyhoeddus.

**Caffael contractau ar gyfer nwyddau, gwaith neu wasanaethau**

Yn amodol ar gydymffurfio â: deddfwriaeth, rheolau sefydlog y contract a rheolau gweithdrefn eraill y Corff Atebol (os yw'r contractau i'w gosod yn enw'r Corff Atebol) ac nad yw'r mater yn disgyn o fewn Mater a Gedwir i'r Partïon, mae'r darpariaethau a ganlyn yn berthnasol.

6. Os yw'r Cyd-bwyllgor yn caffael unrhyw nwyddau, gwaith neu wasanaethau, ar ddechrau'r caffaeliadau, bydd y Cyd-bwyllgor, neu os yw'n disgyn o fewn awdurdod dirprwyedig y Tîm Gweithredol, bydd y Tîm Gweithredol yn cytuno ar:

- fesurau y dylid mesur gwireddu buddion yn eu herbyn;
- trefniadau ar gyfer sicrwydd ansawdd a rheoli risg;
- trefniadau ar gyfer cyfathrebiadau; a
- threfniadau ar gyfer lansio caffael ar gyfer prosiectau penodol (lle bo hynny'n briodol).

7. Wrth i'r caffaeliadau fwrw ymlaen:-

- adolygu statws y prosiect yn erbyn cynllun y prosiect;
- monitro rheolaeth cyllideb, risgiau ac ansawdd y caffaeliad;
- cytuno ar gynnydd drwy gamau allweddol (e.e. yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fater yr OJEU, cam cyn cymhwyso a cham bidiwr a ffafrir) a derbyn yr holl 'ganiatadau' cysylltiedig;
- cytuno ar ddogfennau caffael drafft;
- cytuno ar y broses ar gyfer gwerthuso bidiau a'r meini prawf gwerthuso manwl a'r sgoriau;
- ystyried cynnydd y caffaeliad; a
- gweithredu fel llysgenhadon y caffaeliad a'r prosiect y mae'n ei hwyluso.

8. Ar ddiwedd y caffaeliad:-

- sicrhau bod yr adolygiad risg cyn contract wedi'i gwblhau;
- cytuno ar unrhyw achosion busnes ariannol;
- gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu'r contract a darparu'r holl 'ganiatadau' terfynol; a
- sicrhau bod y contract wedi'i reoli'n briodol a bod y cynnyrch disgwyliedig wedi'u cyflawni'n foddhaol.

**Aelodaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

**Cynrychiolwyr :**

| **Enw'r Derbynnydd** | | **E-bost** |
|---|---|---|
| Aaron Shotton | Cyngor Sir y Fflint | Aaron.Shotton@flintshire.gov.uk |
| Mark Pritchard | Cyngor Wrecsam | Leader@wrexham.gov.uk |
| Hugh Evans | Cyngor Sir Dinbych | leader@denbighshire.gov.uk |
| Gareth Jones | Cyngor Conwy | cllr.gareth.jones@conwy.gov.uk |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn | llinosmedihuws@ynysmon.gov.uk |
| Dyfrig Siencyn | Cyngor Gwynedd | cynghorydd.dyfrigsiencyn@gwynedd.llyw.cymru |

**Ymgynghorwyr :**

| **Enw'r Derbynnydd** | | **E-bost** |
|---|---|---|
| Bryn Jones | Prifysgol Bangor | bryn.jones@bangor.ac.uk |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr Wrecsam | Maria.Hinfelaar@glyndwr.ac.uk |
| David Jones | Coleg Cambria | david.jones@cambria.ac.uk |
| Dafydd Evans | Grŵp Llandrillo Menai | dafydd.evans@gllm.ac.uk |
| Ashley Rogers / Jim Jones | North Wales Business Council | jarogers@gillandshaw.com |

**RHAGLEN WAITH SYLFAENOL AR GYFER Y BWRDD UCHELGAIS**

| Categori | Gweithred | Amserlen (Chwarteri, blwyddyn galendr) | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| **Penawdau'r Telerau** | • Cymeradwyo "Rhaglenni" ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. (3 Maes Thematig Allweddol a 4 Hwylusydd Allweddol). | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Asesu'r opsiynau a chytuno ar ffordd ymlaen ar y gyllideb o £240 miliwn sydd gael gan Lywodraeth y DU/Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Cynllun Twf. (Cynllun Gweithredu Drafft) | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Adolygu Achosion Busnes Amlinellol i gyd-fynd â'r ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Drafft. | Ch1 2019 | Y Grŵp Cefnogaeth Weithredol |
| | • Sesiynau Herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. | Ch1 2019 | Cynrychiolydd o'r Cyd-bwyllgor gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru |
| | • Cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Cynllun Twf. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Cytuno ar lefel briodol a chymesur o asesu a gwerthuso achosion busnes ar gyfer prosiectau'r cynllun twf. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC |
| | • Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer y Cynllun Twf. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC<br><br>Bydd angen ystyried hyn fel mater a allai olygu cael penderfyniad y Cynghorau unigol ar yr adeg briodol. |
| | • Cytuno ar y "cynlluniau ar yr ochr" gyda LlC neu MoUs (er enghraifft Trafnidiaeth, eiddo, Twf Busnes, Sgiliau i gyflawni'r Weledigaeth Twf). | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / LlC |
| **Llywodraethu** | • Ffurfio'r Cyd-bwyllgor yn ffurfiol. | Ch1 2019 | Corff Atebol |
| | • Trefniadau ymarferol ar gyfer y Cyd-bwyllgor. | Ch1 2019 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor |
| | • Cytuno ar Gylch Gorchwyl ac ymgysylltiad gyda'r Grŵp Arweinwyr Busnes (bwrdd ymgynghorol y sector preifat). | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Adnabod a chytuno ar raglen waith chwe mis ar gyfer y Cyd-bwyllgor. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Adnabod cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer is-bwyllgorau, yn benodol yr is-bwyllgor trafnidiaeth a'r is-bwyllgor digidol. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Adnabod cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer yr is-bwyllgorau "anffurfiol" (Sgiliau a Chyflogaeth, Safleoedd ac Eiddo, Busnes ac Arloesi, Twristiaeth). | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Adnabod a dewis yn derfynol y Corff Atebol ar gyfer GA2. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cytundeb ar Drefniadau Craffu. | Ch2/Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor a Trefniadau craffu'r Cynghorau |
| | • Ymgymryd â phroses benodi gyhoeddus ar gyfer y Grŵp Arweinwyr Busnes. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor |
| **Cyllid** | • Adnabod, adolygu a chytuno ar gyllideb dros 3 blynedd a chyfraniadau gan yr holl bartneriaid. | Ch1 2019 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor<br><br>Bydd cynnydd mewn cyfraniadau yn faterion a gedwir i'r Partïon |
| | • Cytuno ar gyllideb ar gyfer y Corff Atebol. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Cytuno ar y sefyllfa gyda NNDR a chyfalafu. | Ch2 2019 | Swyddogion Adran 151 / Corff Atebol / Cyd-bwyllgor |
| | • Adnabod a chytuno ar ofynion benthyca'r Awdurdodau Lleol. | Parhaus | Swyddogion Adran 151 a Swyddogion Monitro / Corff Atebol / Cyd-bwyllgor |
| **Swyddfa Rhaglen** | • Cytuno ar y broses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Rhaglen. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol |
| | • Penodi Cyfarwyddwr Rhaglen. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Cytuno ar ddyluniad a strwythur y Swyddfa Rhaglen. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol |
| | • Cytuno ar Gais Capasiti Sefydliadol ESF i gefnogi gyda gwaith y Swyddfa Rhaglen. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol |
| | • Penodi Rheolwyr Rhaglen o fewn y Swyddfa Rhaglen. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol |
| **Strategaethau a Phrosiectau a Gomisiynwyd** | • Cytuno ar y Broses Cymeradwyo Prosiectau (a'r broses ddirprwyo). | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC |
| | • Cytuno ar brosiect Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru a'r Cynllun Gweithredu. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Cyflwyno'r prosiect LFFN. | Ch2 2019 ymlaen | Cyd-bwyllgor |
| | • Datblygu Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer Prosiectau'r Cynllun Twf. | Ch2/Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Cymeradwyo'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor |
| **Cyfreithiol a Chaffael** | • Datblygu Templed o Gytundeb Ariannu i alluogi trosglwyddo arian y Cynllun Twf i Awdurdodau Arweiniol y Prosiectau sy'n derbyn yr arian. | Ch2 2019 | Corff Atebol / Swyddogion Adran 151 / Monitro / Cyd-bwyllgor |
| | • Cytuno ar gynllun prosiect ac amserlen i fabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Swyddogion Monitro |
| | • Mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2. | Ch2/Ch3 2019 | Materion a gedwir i'r Partïon |
| | • Cytuno ar Strategaeth Gaffael y Cynllun Twf. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol |
| **Monitro ac Arfarnu** | • Datblygu Cofrestr Risg y Rhaglen. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Cytuno ar Gynllun Monitro ac Arfarnu. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| **Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid** | • Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid gwleidyddol. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | • Cytuno ar Gynllun a phrotocol Cyfathrebu. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth Ranbarthol Strategol** | • Edrych i mewn i swyddogaethau strategol allweddol ar lefel ranbarthol a fydd yn helpu i gefnogi gweithrediad y cynllun a gweithgareddau datblygu ehangach. | Parhaus | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC |
| | • Cytuno ar brotocol gyda Gweinidog Gogledd Cymru a'r Pwyllgor Sefydlog Rhanbarthol newydd. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Gweinidog Gogledd Cymru / Pwyllgor Sefydlog Rhanbarthol |
| **Rheoli Cyflawni** | • Pob Bwrdd Prosiect yn ei le i gydlynu cyflawni'r prosiectau sydd wedi'u comisiynu. | Parhaus | Arianwyr y Prosiectau |

**ATODIAD B**

**AMSERLEN CYFARFODYDD**

Mae dyddiadau wedi eu hadnabod ar gyfer blwyddyn calendr (I gynnwys symud o GA1 I GA2)

| CYFARFOD GRWP GWEITHREDOL | CYHOEDDI AGENDA | CYFARFOD BWRDD UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU | |
|---|---|---|---|
| | | DYDDIAD | AMSER |
| 11/01/19 | 24/01/19 | 01/02/2019 | 3 pm |
| 22/02/19 (gweler isod) | 07/03/19 | 15/03/19 | 1 pm |
| 29/03/19 | 04/04/19 | 12/04/19 | 10am |
| 03/05/19 | 09/05/19 | 17/05 | 1pm |
| 07/06/19 | 13/06/19 | 21/06 | 1pm |
| 05/07/19 | 11/07/19 | 19/07 | 1pm |
| | | | |
| 06/09/19 | 12/09/19 | 20/09 | 1pm |
| 04/10/19 | 10//10/19 | 18/10 | 1pm |
| 01/11/19 | 07/11/19 | 15/11 | 1pm |
| 06/12 (or 29/11) | 12/12/19 (or 05/12) | 20/12 (or 13/12) | 1m |

Mae'r 08/02 a'r 08/03 wedi eu hadnabod eisoes fel dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Grwp Gweithredol. Fodd bynnag, argymhellir newid y dyddiad i'r 22/02 er mwyn cychwyn rhaglen sy'n gweithio mewn trefn daclus gyda chyfarfodydd Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru o hyn allan.

Mae cyfarfodydd y Grwp Gweithredol yn cael eu cynnal bythefnos cyn cyfarfod y Bwrdd Uchelgais (yn hytrach na phythefnos yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Uchelgais) ac mae ystyriaeth wedi ei roi i wyliau banc ayyb.